

# CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL



Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**  
a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun 22 o Dachwedd 2021 am 7:00pm.

**YN BRESENNOL:** Cynghorwyr Heather Williams (Maer), Menna Jones (Dirprwy Faer)  
Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Christine Ellis, Gavin Harris, Ken  
Hawkins, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts a Mike van der  
Eijk.  
Cynghorwyr Sir Bobby Feeley ac Emrys Wynne.

**YN BRESENNOL:** Janine Cusworth – ReSource ar gyfer eitem 3 ar yr agenda (*cofnod 136*)  
Siân Clark – Clerc Tref Rhuthun  
Kate Harcus – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys  
Marian Rees – Cyfieithydd

## 134. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Ymddiheuriadau: Cynghorydd Rachel Lewington, Ethan Jones, Ifan Wyn a Jabez Oakes a  
Chynghorydd Sir Huw Hilditch-Roberts

## 135. DATGAN BUDDIANNAU

- Cyhoeddodd y Cynghorydd Heather Williams fuddiant personol ac ariannol yn eitem 15 ar yr agenda (munud 149) fel y Maer presennol.
- Cyhoeddodd y Cynghorydd Gavin Harris fuddiant personol yn eitem 3 ar yr agenda (munud 136) gan ei fod yn cefnogi ReSource trwy'r broses gynllunio fel gwirfoddolwr.
- Yn y cyfarfod, datganodd y Cynghorydd Robert Owen-Ellis fuddiant personol yn eitem 8 ar yr agenda (munud 141) yn ystod y cyfeiriad at y Felodrom Arfaethedig, fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Brynhyfryd.
- Yn y cyfarfod, datganodd y Cynghorydd Sir Emrys Wynne fuddiant personol yn eitem 8 ar yr agenda (munud 141) wrth gyfeirio at y Felodrom Arfaethedig, fel Llywodraethwr Ysgol Brynhyfryd.

## 136. ReSOURCE

Croesawodd y Cyngor Tref Janine Cusworth, Sylfaenydd / Cyfarwyddwr ReSource i'r cyfarfod. Gohiriwyd yr eitem yn flaenorol o'r cyfarfod ym mis Hydref 2021.

Rhannwyd gwybodaeth gyda'r Cyngor ar nodau, amcanion a phwrpas ReSource, menter gymdeithasol ac amgylcheddol nid-er-elw. Prif ffocws oedd cynnwys y rhai oedd y pellaf o'r farchnad lafur ynghyd ag ailgyfeirio eitemau o safleoedd tirlenwi trwy hyrwyddo ailddefnyddio. Roedd y sefydliad wedi'i leoli yng Nghae Dai, Dinbych ac roedd wrthi'n gweithio i gymryd prydlles hen adeilad Banc Barclays ar Sgwâr San Pedr. Rhannwyd yr uchelgeisiau ar gyfer defnyddio'r adeilad gyda'r Aelodau, gan gynnwys caffi cymunedol cost isel, gofod cymdeithasol, siop gymunedol ailddefnyddio a manay creadigol, yn ogystal byddai'r Men's Shed lleol hefyd wedi'i leoli yn yr adeilad. Byddai angen i'r adeilad fod yn hygyrch yn gorfforol a byddai'n gyfeillgar i ddefnyddwyr Makaton; o ystyried y cyfyngiadau cyfredol ar hygyrchedd,

byddai'n hanfodol cael ramp i'r adeilad. Anogwyd safbwyntiau a syniadau ar sut i siapio'r gofod cymunedol. Sicrhawyd cyllid o'r Loteri Genedlaethol i gefnogi dwy flynedd o chostau rhedeg a chostau eraill.

Wrth ymateb i ymholiad am y broses atgyfeirio a chyfrifoldebau am anghenion unigolion, nododd Janine Cusworth mai Cyngor Sir Ddinbych oedd y prif randdeiliad gyda chyfeiriadau hefyd yn cael eu gwneud trwy grwpiau gofal preifat. Fel gweithiwr cymdeithasol ac athro cymwys roedd gan Janine oruchwyliaeth o dîm staffio o 10 a nodwyd bod risgiau'n cael eu asesu yn briodol. Byddai lleoliad canol y dref yn cynorthwyo cyfranogwyr i weithio yn y caffi a'r siop gyda chefnogaeth briodol. Yn ddiweddar, comisiynwyd ReSource i weithio mewn partneriaeth â Scope i gefnogi'r rhai 16+ a nododd ag anabledd i gael mynediad at sgiliau priodol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwirfoddoli drwy'r Rhaglen Gweithio ar Les ledled Gogledd Cymru.

Ar ran y Cyngor Tref, diolchodd y Maer i Janine Cusworth am ddod i'r cyfarfod ac am rannu'r uchelgeisiau a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer ReSouce yn Rhuthun.

### **137. ADRODDIAD Y MAER**

Nodwyd yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd gyda'r agenda, a oedd yn amlinellu gweithgareddau a digwyddiadau'r Maer ers cyfarfod blaenorol y Cyngor Tref ym mis Hydref.

**PENDERFYNWYD:** *nodi cynnwys Adroddiad y Maer.*

### **138. ADRODDIADAU'R AELODAU**

Trafododd yr Aelodau adroddiadau'r Aelodau fel y'u dosbarthwyd gyda'r agenda.

**PENDERFYNWYD:** *nodi cynnwys adroddiadau'r Aelodau.*

### **139. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN**

Yn ogystal â'r adroddiad a ddosbarthwyd gyda'r agenda croesawodd y Cyngorwyr Sir Bobby Feeley ac Emrys Wynne y gwelliannau yn Ysbyty Cymunedol Rhuthun a Chlinig newydd gan bwysleisio eu bod yn gyfleuster rhagorol i drigolion Rhuthun a'r ardal gyfagos. Diolchwyd i Gyfeillion Ysbyty Rhuthun am eu cyfraniad sylweddol. Nid oedd penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud ynglŷn â defnydd hen safle'r Clinig.

Roedd y tri Chynghorydd Sir yn bresennol yn y gwasanaeth Sul y Cofio a gynhaliwyd tay ar 14 Tachwedd a mynychodd y Cynghorydd Sir Emrys Wynne y Gwasanaeth Dydd y Cadoediad ar 11 Tachwedd 2021.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn Adroddiad Cyngorwyr Sir Rhuthun.*

### **140. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 o Hydref 2021 fel cofnod cywir.*

### **141. MATERION YN CODI**

*Cofnod 121: Felodrom arfaethedig Ruthin*

Dywedodd y Cyng. Gavin Harris y deallir bod amser Swyddogion a Phanelwyr o fewn Chwaraeon Cymru ar hyn o bryd yn focysu ar ddau brosiect penodol yn bresennol; bydd prosiect y felodrom arfaethedig y nesaf i'w ystyried ganddynt. Er nad oedd unrhyw bryderon ynghylch ymrwymiad Chwaraeon Cymru i'r prosiect, roedd ymateb ffurfiol yn annhebygol cyn y Nadolig.

#### **142. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**

Yn ogystal â gofyn am i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 o Dachwedd 2021 gael eu hystyried, dywedodd y Cynghorydd Menna Jones wrth yr Aelodau bod y digwyddiad plannu coed yn Llanfwrog wedi ei ohurio o 13 o Dachwedd i 27 o Dachwedd oherwydd oedi gyda derbyn y coed.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 8 o Dachwedd 2021.*

#### **143. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATLBYGU**

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 o Dachwedd 2021.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 8 o Dachwedd 2021.*

#### **144. DYFODOL RHUTHUN A CHRONFA CODI'R GWASTAD – ADRODDIAD CYNNYDD**

Rhoddodd y Cynghorydd Gavin Harris ddiweddariad ar lafar i'r Cyngor Tref. Ymhlith y pwyntiau allweddol roedd:

- Daeth nifer dda i arddangosfa Dyfodol Rhuthun, a gynhaliwyd yn Yr Hen Lys, a chasglwyd adborth i helpu i lywio'r prosiectau arfaethedig.
- Roedd y prosiect manau cyhoeddus i'r Gronfa Codi'r Gwastad (Sgwâr San Pedr a strydoedd cyfagos) wedi'i fireinio ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am gostau posibl. Roedd costau pob prosiect wedi'u cynnwys yn y pecyn cais cyffredinol. Diolchwyd i Jones Bros a Richard Moorhead a Lang am eu cefnogaeth.
- Byddai adroddiad ar y prosiectau arfaethedig yn Sir Ddinbych i'w gynnwys yng nghais Cronfa Codi'r Gwastad Gorllewin Clwyd yn cael ei ystyried gan gyfarfod Cabinet Cyngor Sir Ddinbych ar 23 Tachwedd.
- Byddai mwy o fanylion yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau a dyluniad y prosiect wrth i'r cais esblygu, yn amodol ar ei gymeradwyo gyda chyflwyniad ffurfiol yn debygol yn y Flwyddyn Newydd.
- Byddai gwaith datblygu ychwanegol yn cael ei wneud ar gyfer uchelgeisiau Cae Ddol a choridorau gwyrdd yn y dref i lywio'r cais.

Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai adroddiadau a chyhoeddiadau perthnasol, hanesyddol a chyfredol, ar gael trwy'r 'Urban Room' yn Yr Hen Lys yn ogystal â bod ar gael ar-lein.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Sir Bobby Feeley y byddai'r Cabinet yn rhoi ystyriaeth i'r 13 prosiect a oedd ar y cyd yn ffurfio'r cais Codi'r Gwastad Sir Ddinbych o gynnig Gorllewin Clwyd. Roedd swyddogion Cyngor Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio'n galed i ddwyn ynghyd y ddau gynnig etholaethol (Gorllewin Clwyd a Dyffryn Clwyd) a chydabuwyd a gwerthfawrogyd y gwaith a wnaed gan Gyngor Tref Rhuthun i gefnogi'r cais hefyd.

Dywedwyd y bu ymdrech enfawr gan Gyngor Tref Rhuthun i sicrhau bod y cais am y manau cyhoeddus ar gyfer Sgwâr San Pedr a'r strydoedd cyfagos yn gadarn ac y byddai gwaith yn parhau i lywio cais Cae Ddol a choridorau gwyrdd. Anogwyd Cyngor Sir Dinbych i gefnogi'r cynigion.

**PENDERFYNWYD:** *nodi y diweddariad llafar.*

#### **145. PROSIECT CO-LAB**

Ystyriodd yr aelodau gais gan Ysgol Pensaernïaeth a Dylunio Birmingham, Prifysgol Dinas Birmingham, am brosiect myfyrwyr rhyngddisgyblaethol i gefnogi datblygiad Dyfodol Rhuthun ymhellach. Roedd Gweithgor Dyfodol Rhuthun wedi ystyried y cynnig ac yn gefnogol i'r cais.

Wrth drafod, croesawodd yr aelodau y cyfle yr oeddent yn ei ystyried yn fuddiol i gefnogi dull cynllunio tref a arweinir gan gymuned Ruthin ymhellach. Nodwyd na ofynnwyd am gyfraniad ariannol, ond roedd aelodau o'r farn y byddai'n briodol cyfrannu at gost llogi bws moethus.

**PENDERFYNWYD:** y dylid derbyn cynnig prosiect myfyrwyr rhyngddisgyblaethol o Brifysgol Dinas Birmingham i gefnogi datblygiad Dyfodol Ruthin ymhellach a chynnig cyfraniad at gost llogi bws moethus.

#### 146. DINESYDD DA RHUTHUN

Hysbyswyd yr Aelodau'r gan y Cynghorydd Anne Roberts y byddai'r paratodau'n cychwyn yn fuan ar gyfer Gwobrau Dinesydd Da, Person Ifanc a Grŵp Cymunedol y Flwyddyn ar gyfer 2021. Byddai trefniadau'n cael eu gwneud i gyflwyno enillwyr gwobrau 2020 cyn diwedd y flwyddyn wedi i'r cyflwyniad ffurfiol gael ei ohurio yn gynharach yn y flwyddyn. Anogwyd aelodau i hyrwyddo'r cynllun yn y gymuned.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r gweithgareddau mewn perthynas â'r Gwobrau.

#### 147. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL: CYNGOR AR BOPETH SIR DDINBYCH

Ystyriwyd cais gan Gyngor ar Bopeth yn Sir Ddinbych am gymorth ariannol o £ 2,000.

**PENDERFYNWYD:** i ddarparu cymorth ariannol o £ 2,000 i Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych.

#### 148. RHYDDHAU AIL RHADALIAD LWFANS Y MAER

Cytunodd yr aelodau i dalu £700, gan gynrychioli ail gyfran lwfans y Maer.

**PENDERFYNWYD:** rhyddhau ail gyfran lwfans y Maer - taliad o £700.

#### 149. DATGANIAD ARIANNOL

Cafodd yr Aelodau'r datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod yn dod i ben ar 31 Hydref 2021.

**PENDERFYNWYD:** derbyn y datganiad ariannol am y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Hydref 2021.

#### 150. CYFRIFON I'W TALU

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

OB	JB Platform Hire Ltd	Llogi fan a staff ar gyfer tynnu arddangosfeydd blodau crog	* £384.00
OB	IT Williams Company Ltd	Casglu planwyr crog, gwaredu gwastraff a chludo planwyr i Corwen.	* £593.40
OB	Fineline	Sganio'r Adroddiad Hanesyddol i lywio'r cais Cronfa Codi'r Gwastad.	* £72.00
OB	Fineline	Sganio Adroddiad 4 Cyfrol Hanesyddol i lywio cais Cronfa Codi'r Gwastad a mân bethau ar gyfer arddangosfa Dyfodol Rhuthun.	* £363.84
OB	Fineline	Argraffu Tafleenni Gwasanaeth Sul y Cofio ar bapur sidan 130gsm.	* £57.14
OB	Marian Rees	Gwasanaeth Cyfieithu mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 4 a 18 Hydref 2021; a Chyfieithu cofnodion ar gyfer cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2021.	* £319.38
OB	Hill & Roberts	Gwasanaethau Cyfrifeg a Chyflogres ar gyfer Tachwedd 2021	* £240.00
OB	Sandra Williams	Ad-daliad am danysgrifiad misol Microsoft	* £151.68

CQ 298	HMRC	365 (Ebrill - Tachwedd 2021) Taliad TAW	£3,374.95
CQ 299	Rick Parr (Rickx Disco)	System PA ar gyfer y Gwasanaeth Coffa	£80.00

**151. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod arferol nesaf fydd nos Lun 13 o Rhagfyr 2021 am 7pm.*